Asesiad o Effaith Trafnidiaeth

Adolygiad Ysgolion Ardal:- Opsiynau ar gyfer ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor

Fersiwn 1: Mehefin 2016

Cynnwys

		Page
1	**Cyflwyniad**	**3**
1.1	Y Polisïau Creiddiol	**4**
2	**Proffil Trafnidiaeth**	**4**
2.1	Darlun o Ardal Sir y Fflint	**4**
2.2	Darlun o Ardal Brynffordd/Licswm/Rhosesmor	**6**
3	**Trafnidiaeth**	**7**
3.1	Y Trefniadau Trafnidiaeth Presennol yn yr Ardal	**7**
3.2	Effaith ar Amseroedd Siwrne	**7**
3.3	Effaith ar Gostau Cludiant	**9**
3.4	Llwybrau Diogel yn y Gymuned	**10**
4	**Opsiynau'r Awdurdod Lleol o ran Newid Strwythurol Asesiad o Effaith Trafnidiaeth**	**11**
5	**Casgliadau ac Argymhellion**	**12**

1. Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2015 penderfynodd y Cabinet ein bod yn dechrau ymgynghoriad anffurfiol ar gyfer adolygiad ardal o'r ysgolion canlynol:-

Ysgol Gynradd Brynffordd

Ysgol Gynradd Licswm

Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor

Bydd yr adolygiad ysgolion ardal yn asesu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

Mae'r opsiynau ar gyfer yr ardal fel a ganlyn:-

Opsiwn 1 : Cadw'r *Status Quo*

Opsiwn 2 : Ysgol Ardal ar Un Safle

Opsiwn 3 : Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle (naill ai Ysgol Gynradd Brynffordd neu Ysgol Gynradd Licswm)

Byddai hyn yn golygu'r canlynol:-

Opsiwn 1 : ***Status Quo*** – Pob ysgol yn aros fel y mae, yn cadw'i henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn y gymuned.

Opsiwn 2 : **Ysgol Ardal ar un safle** – Ysgol Ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw'i chategori ond byddai ganddi enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd, Licswm neu Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.

Opsiwn 3 : Ysgolion Ardal ar ddau safle – Byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros fel y mae, yn cadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn ei chymuned. Byddai Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol a unwyd yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd neu Licswm.

Casglwyd gwybodaeth allweddol, yn cynnwys Arfarniad Opsiynau, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Saesneg, Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned ac Arfarniadau Adeilad, fel sail i'r adroddiad hwn ac maent ar gael i'w gweld ar y ddolen ganlynol:-

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

1.1 Y Polisïau Creiddiol

Trafnidiaeth

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ddarparu trafnidiaeth am ddim i blant oed ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:-

- Pan fo plentyn sy'n cael addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- Pan fo plentyn sy'n cael addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion oed ysgol statudol:
    - Pan fo'r Awdurdod Lleol, mewn ymgynghoriad â Chyfadran yr Amgylchedd, yn ystyried fod y ffordd i'r ysgol yn beryglus;
    - Pan fo cludiant i ysgol benodol yn cael ei nodi yn Natganiad Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel arfer ar sail feddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun y meini prawf eraill a nodir yn y polisi hwn;
    - Pan fo plentyn angen cludiant ar sail feddygol ac nad oes trafnidiaeth gyhoeddus addas yn bodoli.

Mae fersiwn lawn o'r polisi ar gael ar y ddolen ganlynol i'r wefan www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation.

Am ragor o wybodaeth am drafnidiaeth cysylltwch â'r Tîm Trafnidiaeth ar 01352 704530 sy'n gyfrifol am asesu a yw rhywun yn gymwys i gael cludiant.

2. Proffil Trafnidiaeth

2.1 Darlun o Ardal Sir y Fflint

- Mae Sir y Fflint yn ganolfan drafnidiaeth sy'n bwysig yn strategol
- Ceir dibyniaeth uchel ar geir
- Ychydig sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith
- Mae mwy o bobl yn teithio allan o'r Sir i weithio nag sy'n teithio i mewn i'r ardal

Tabl 1: Dull o deithio i'r gwaith **(QS701EW)**

	Awdurdod Unedol Sir y Fflint	**Cymru Gyfan**
Preswylwyr Arferol i gyd Oed 16 i 74	112325	2245166
Gweithio'n Bennaf yn neu o'r Cartref	3234	73140
Trên tanddaearol, Metro, Rheilffordd Ysgafn, Tram	45	1175
Trên	676	27341
Bws, Bws Mini neu Fws Goets	2951	62903
Tacsi	343	6523
Beic modur, Sgwter neu Foped	533	7694
Gyrru Car neu Fan	53927	918645
Teithiwr mewn Car neu Fan	4941	92727
Beic	1311	19659
Ar Droed	5676	145135
Ffordd Arall o Deithio i'r Gwaith	412	8673
Ddim mewn Gwaith	38276	881551

Dull o Deithio i'r Gwaith, 2011 (QS701EW), Mawrth 11
Gwybodaeth y CYFRIFIAD

O blith poblogaeth weithio Sir y Fflint, mae 7.8% o bobl yn gweithio'n bennaf yn neu o'r cartref. Mewn cymhariaeth â'r ffigwr i Gymru mae hwn yn eithaf uchel; o ganlyniad yn rhannol i natur wledig ardaloedd helaeth o'r sir.

Mae dibynnu ar geir i deithio i'r gwaith yn uwch na ffigwr Cymru. Eto, natur wledig yr ardal a'r diffyg mynediad at ffyrdd arall o deithio yw achos hyn. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cyfrif am 4.48% isel iawn o siwrneiau i'r gwaith ar draws y Sir.

2.2 Darlun o Ardal Brynffordd/Licswm a Rhosesmor

Map yn dangos yr Ardal a lleoliadau'r ysgol yn yr adolygiad.



Mae yna dair ysgol gynradd yn yr ardal - mae Ysgol Gynradd Brynffordd yn ward plwyf Brynffordd, Ysgol Gynradd Licswm yn ward plwyf Ysceifiog ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn ward plwyf Helygain. Dosberthir y tair ward yma gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhai sydd mewn pentrefan neu anheddiad ynysig mewn cefn gwlad gyfannedd.

Caiff y tair ysgol eu dosbarthu fel Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg.

Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth wardiau plwyfi Brynffordd, Ysceifiog a Helygain gyda'i gilydd oedd 5244.

Ar hyn o bryd nid oes ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai wedi'u cymeradwyo yn ardaloedd Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

3.1 Y Trefniadau Cludiant Presennol

Mae yna rai trefniadau cludiant yn eu lle yn yr ardal ar hyn o bryd. Pe bai pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim yn cymryd y cludiant o'r cartref i'r ysgol, byddai'r costau amcangyfrifol fel a ganlyn:

Enw'r Ysgol	Costau Dyddiol (£) (tua)	Costau Blynyddol (£) (tua)
Ysgol Gynradd Brynffordd	175.00	33,250.00
Ysgol Gynradd Licswm	110.00	20,900.00
Ysgol Rhos Helyg	615.00	116,850.00
Cyfanswm Costau (£) (tua.)	**900.00**	**171,000.00**

3.2 Yr Effaith ar Amseroedd Siwrne

Mae Adrannau 3 a 4 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan nad yw trefniadau cludiant yn addas os ydynt yn afresymol o hir.

Er nad yw'r mesur yn pennu terfyn amser i bob siwrne, ym marn Gweinidogion Cymru, ni ddylai hyd siwrne arferol fod yn hwy na 45 munud i deithio i ysgol gynradd a 60 munud i ysgol uwchradd ar un daith.

Er mwyn asesu effeithiau'r opsiynau ar hyd siwrne'r disgyblion, mae'r Cyngor wedi gwneud ymarferiad i gael amcangyfrif o'r gwahaniaeth yn y siwrne yn seiliedig ar:

Mae'r opsiynau ar gyfer yr ardal fel a ganlyn:-

Opsiwn 1 : *Status Quo*

Opsiwn 2 : Ysgol Ardal ar Un Safle

- Y pellter o Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm i ysgol Ardal arall ar safle Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor
- Y pellter o Ysgol Licswm ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor i ysgol Ardal arall ar safle Ysgol Brynffordd.
- Y pellter o Ysgol Brynffordd ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor i ysgol Ardal arall ar safle Ysgol Licswm.

Opsiwn 3 : Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle (naill ai Ysgol Brynffordd neu Ysgol Licswm).

- Y pellter o safle Ysgol Licswm i safle Ysgol Brynffordd

Gydag Opsiynau 2 a 3, mae'n debyg y byddai cynnydd yn amser y siwrne i rai disgyblion, ond byddai hynny o fewn y mesur teithio gan ddysgwyr oherwydd lleoliad y safleoedd.

Brynffordd i Licswm = tua 2.4 milltir

Brynffordd i Rosesmor = tua 4.7 milltir

Licswm i Rosesmor = tua 5.7 milltir

Nodir hefyd, yn ôl yr wybodaeth am y disgyblion presennol, fod yna nifer o ddisgyblion sy'n byw yn yr ardal ac oherwydd dewis eu rhieni yn dewis peidio â mynd i'r ysgol agosaf atynt ac yn teithio i ysgol arall yn yr ardal. Gallai hyn olygu, yn dibynnu ar leoliad yr ysgol/ion ardal, y byddai rhai disgyblion yn gweld gostyngiad yn eu hamser teithio. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion o Ysgolion Brynffordd a Licswm.

Rhoddir amcan o niferoedd y disgyblion a fyddai'n cael siwrne fyrrach neu hirach o'u cartref i'r ysgol yn seiliedig ar yr opsiynau, yn y tabl isod.

Opsiwn	**Amcan Nifer a % y Disgyblion a fyddai'n gweld Gostyngiad yn eu Hamser Teithio o'r Cartref i'r Ysgol**	**Amcan Nifer a % y Disgyblion y byddai eu Hamser Teithio o'r Cartref i'r Ysgol yn aros yr un fath**	**Amcan Nifer a % y Disgyblion a fyddai'n gweld Cynnydd yn eu Hamser Teithio o'r Cartref i'r Ysgol**
Opsiwn 1	Dim newid	Dim newid	Dim newid
Opsiwn 2 – Ysgol Ardal ar safle Brynffordd	39 (15.73%)	70 (28.23)	135 (54.44%)
Opsiwn 2 – Ysgol Ardal ar safle Rhos Helyg	13 (5.24%)	127 (51.21%)	108 (43.55%)
Opsiwn 3 – Cadw Rhos Helyg ac ysgol Ardal ar safle Brynffordd	19 (7.66%)	197 (79.44%)	32 (12.9%)

Sylwer: Mae pob un o'r hyd siwrneiau disgyblion o'r cartref i'r ysgol yn llai o fewn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac o fewn yr hyd siwrne a argymhellir, sef llai na 45 munud

3.3 Yr Effaith ar Gostau Cludiant

Mae'r ymarfer yn 3.2 yn dangos y byddai'r pellter rhwng yr ysgolion pellaf, sef Ysgol Licswm ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor, tua 5.7 milltir.

Felly, o ystyried y dystiolaeth yn 3.2 ac yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai pob disgybl sy'n mynychu ysgolion yr ardal ar hyn o bryd yn mynd i'r ysgol/ion newydd (ac eithrio disgyblion sy'n cael cludiant oherwydd angen dysgu ychwanegol), rhagwelir y bydd rhai costau cludiant ychwanegol i'w hystyried.

<u>Y costau dyddiol posibl i Opsiwn 1</u>

Pe bai pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn ei gymryd, amcangyfrifir y byddai'r costau ar gyfer pob ysgol fel a ganlyn:-

£175.00 i Ysgol Brynffordd 33,250.00 y flwyddyn),

£110.00 i Ysgol Licswm (£20,900.00 y flwyddyn), and

£615.00 i Ysgol Rhos Helyg (£116,850.00 y flwyddyn).

<u>Y costau dyddiol posibl i Opsiwn 2</u>

Pe bai Opsiwn 2 yn cael ei weithredu, byddai gan nifer o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim i'r ysgol yn seiliedig ar y dybiaeth y byddent yn trosglwyddo i'r ysgol ardal naill ai ym Mrynffordd, Licswm neu Ysgol Rhos Helyg ar y sail ganlynol:-

- Y byddai'r ffordd i'r ysgol ardal yn cael ei hystyried yn beryglus gan y Cyngor oherwydd ei lleoliad gwledig heb ddigon o lwybrau cerdded i mewn ac allan o'r pentref, a/neu
- Byddai lleoliad cartref y plentyn dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf

Pe bai pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn ei gymryd, amcangyfrifir y byddai'r costau ar gyfer pob ysgol fel a ganlyn:-

£640.00 y diwrnod (£121,600.00 y flwyddyn) os yw'r ysgol ardal ar safle Brynffordd, a

£760.00 y diwrnod (£144,400.00 y flwyddyn) os yw'r ysgol ardal ar safle Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.

Ni chyfrifwyd costau cludiant i Ysgol Licswm gan nad yw safle Licswm yn addas fel ysgol ardal.

<u>Y costau dyddiol posibl i Opsiwn 3</u>

Pe bai Opsiwn 3 yn cael ei weithredu, byddai gan nifer o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim i'r ysgol yn seiliedig ar y dybiaeth y byddent yn trosglwyddo i'r ysgol ardal naill ai ar safle Brynffordd neu Licswm ar y sail ganlynol:

- Y byddai'r ffordd i'r ysgol ardal yn cael ei hystyried yn beryglus gan y Cyngor oherwydd ei lleoliad gwledig heb ddigon o lwybrau cerdded i mewn ac allan o'r pentref, a/neu
- Byddai lleoliad cartref y plentyn dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf

Pe bai pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn ei gymryd, amcangyfrifir y byddai'r costau ar gyfer pob ysgol fel a ganlyn:-

£805.00 y diwrnod (£152,950.00 y flwyddyn) os yw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn cael ei chadw a bod yr ysgol ardal ar safle Brynffordd.

Ni chyfrifwyd costau cludiant i Ysgol Licswm gan nad yw safle Licswm yn addas fel ysgol ardal.

Crynodeb o Amcangyfrif y Costau Cludiant

	Amcangyfrif Costau Cludiant (costau diwrnod)
Opsiwn 1	£900.00
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar safle Brynffordd)	£640.00
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar safle Rhos Helyg)	£760.00
Opsiwn 3 (Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac Un Ysgol Ardal ar Un safle)	£805.00

3.4 Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Mae Ysgolion Brynffordd a Licswm wedi derbyn cynllun i ddarparu mwy o lwybrau diogel yn y gymuned.

Nid yw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor wedi derbyn cynllun llwybrau diogel i'r ysgol. Cynigiwyd cynllun ond roedd problemau dichonoldeb.

4. Opsiynau'r Awdurdod Lleol o ran Newid Strwythurol

Asesiad o'r Effaith Trafnidiaeth

Ardal	Ysgolion	Opsiwn 1 *Status Quo*	Opsiwn 2 Ysgol Ardal ar un safle	Opsiwn 3 Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un ysgol ardal ar un safle (naill ai Brynffordd neu Licswm)
Brynffordd, Licswm a Rhosesmor	Ysgol Gynradd Brynffordd Ysgol Gynradd Licswm Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor	Pob ysgol yn aros fel y mae, yn cadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn y gymuned.	Ysgol ardal ar un safle, byddai'r ysgol yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau, naill ai gydag estyniad neu adeilad newydd ar safle sy'n bodoli'n barod	Byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros fel y mae, yn cadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff a byddai'n aros yn y gymuned. Byddai Ysgolion Brynffordd a Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol a unwyd yn cadw ei chategori ond byddai ganddi enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau, naill ai gydag estyniad neu adeilad newydd ar safle sy'n bodoli'n barod.

5 = Cytuno'n Llwyr/Gwelliant
4 = Cytuno/Ychydig yn Well
3 = Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno/Dim newid
2 = Anghytuno/Ychydig yn Waeth
1 = Anghytuno'n Llwyr/Gwaeth

Mesur	Opsiwn 1 *Status Quo*	Opsiwn 2 Ysgol Ardal ar un safle	Opsiwn 3 Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un ysgol ardal ar un safle (naill ai Brynffordd neu Licswm)
Yr effaith ar amser siwrneiau	3	2	2
Yr effaith ar gostau cludiant	3	4	4
Llwybrau diogel mewn Cymuned	3	3	3
Sgôr gyfartalog	**3**	**3**	**3**

5. Casgliadau ac Argymhellion

Ar sail yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth yn gyffredinol, y canfyddiadau yw na fyddai Opsiwn 1 yn peri newid i'r trefniadau presennol na hyd siwrneiau.

Yn achos Opsiwn 2 – Ysgol Ardal ar un safle ac Opsiwn 3 – Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un ysgol ardal ar un safle (naill ai Brynffordd neu Licswm), mae'n debyg y byddai siwrne rhai disgyblion yn hirach. I rai disgyblion mae'n debyg y byddai gostyngiad yn hyd eu siwrne. Mae'r amseroedd teithio o'r cartref i'r ysgol yn dod oddi mewn i'r amser siwrne a argymhellir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sef llai na 45 munud.

Gall nifer o'r disgyblion fod yn gymwys am gludiant am ddim o'r Cartref i'r Ysgol yn seiliedig ar Bolisi Cludiant Cyngor Sir y Fflint. O ystyried hyn, rhagwelir y gall fod costau ychwanegol i gludo disgyblion pe bai Opsiynau 2 a 3 yn digwydd. Ar gyfer opsiwn 1 (y *status quo*), os yw pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim yn cymryd cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, yna byddai costau cludiant yn uwch nag i opsiwn 2 a 3.

Mae'n bwysig nodi nad yw costau cludiant yn syml ac y gallent newid. Bydd maint y cerbyd sydd ei angen, a nifer y disgyblion sy'n teithio, yn cael effaith ar brisiau rhai contractau. Hefyd mae'n anodd amcangyfrif prisiau gan fod pob contract yn mynd drwy'r broses dendro ac, yn dibynnu ar ble mae'r cwmni wedi'i leoli, gall prisiau amrywio.